# Hunanwerthuso a gwelliant parhaus yn y system

## 12 Prif egwyddor hunanwerthuso

| | | |
|---|---|---|
| 1. Yn canolbwyntio ar ddysgwyr | 2. Yn werthusol yn hytrach nag yn ddisgrifiadol | 3. Yn seiliedig ar dystiolaeth |
| 4. Wedi'i lywio gan effaith | 5. Yn canolbwyntio ar weithredu | 6. Yn ymgysylltu â dysgwyr |
| 7. Yn cynnwys rhanddeiliaid | 8. Yn dryloyw ac yn onest | 9. Yn cyd-fynd â gwerthoedd a strategaethau |
| 10. Yn ymwybodol o gyd-destun Cymru | 11. Yn bwrpasol ac yn gymesur | 12. Wedi'i ymwreiddio mewn llywodraethu |

**1. Yn canolbwyntio ar ddysgwyr**

Mae hunanwerthuso'n canolbwyntio ar sut mae darpariaeth yn cefnogi cyflawniad, lles a chynnydd dysgwyr. Bydd gwerthusiadau wedi'u seilio ar ba mor effeithiol y mae gwaith darparwyr yn gwneud gwahaniaeth i brofiadau a deilliannau dysgwyr.

*Mae hyn yn sicrhau bod y broses yn parhau i fod wedi'i seilio ar bwrpas pennaf addysg, sef cefnogi dysgwyr i lwyddo a ffynnu. Mae canolbwyntio ar ddysgwyr yn helpu darparwyr i sicrhau bod adnoddau a strategaethau'n cyd-fynd â'r hyn sydd bwysicaf.*

**2. Yn werthusol yn hytrach nag yn ddisgrifiadol**

Mae'r broses yn canolbwyntio ar b'un a yw dulliau'n effeithiol, yn hytrach na'r hyn sy'n cael ei wneud yn unig. Mae darparwyr yn cynnig gwerthusiadau clir, wedi'u seilio ar dystiolaeth, ynghylch ansawdd a pherfformiad, gan nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella.

*Mae hyn yn ychwanegu trylwyredd at y broses ac yn helpu darparwyr i osgoi adrodd yn arwynebol. Mae safbwynt gwerthusol cryf yn galluogi barnau mwy ystyrlon a chynllunio gwelliant craffach.*

**3. Yn seiliedig ar dystiolaeth**

Mae casgliadau wedi'u seilio ar dystiolaeth gredadwy, wedi'i thriongli, sy'n deillio o sawl ffynhonnell, gan gynnwys safbwyntiau allanol neu gymaryddion cenedlaethol a rhyngwladol, lle bo hynny'n briodol. Caiff data, arsylwadau, adborth a mathau eraill o fewnwelediad eu defnyddio i ddangos effaith ac ategu penderfyniadau gwybodus.

*Mae tystiolaeth gadarn yn meithrin ymddiriedaeth yn y canfyddiadau ac yn sicrhau y gellir eu rhannu a gweithredu arnynt. Mae'n cefnogi cysondeb a dyfnder ar draws gwahanol rannau o waith y darparwr.*

**4. Wedi'i lywio gan effaith**

Mae hunanwerthuso'n canolbwyntio ar ddeilliannau gwirioneddol gweithgaredd, yn hytrach na'r prosesau yn unig neu'r bwriadau y tu ôl iddo. Mae darparwyr yn asesu'n feirniadol yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w gwaith, yn enwedig i ddysgwyr, ac yn defnyddio tystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd a gwerth eu dulliau.

*Mae hyn yn symud y ffocws oddi wrth weithgarwch i wella. Mae'n helpu i sicrhau y caiff egni a buddsoddiad eu cyfeirio at ddulliau sy'n gwneud gwahaniaeth ystyrlon.*

**5. Yn canolbwyntio ar weithredu**

Mae hunanwerthuso'n broses barhaus ac yn llywio camau gweithredu clir a phwrpasol sy'n ymateb i'r canfyddiadau. Mae'r camau gweithredu hyn yn realistig, wedi'u targedu ac wedi'u llunio i wella ansawdd, gyda dulliau ar waith i fonitro eu gweithrediad a gwerthuso eu heffaith.

*Mae'r egwyddor hon yn cefnogi diwylliant o wella'n barhaus. Mae'n atgyfnerthu nad ymarfer ar ei ben ei hun yw hunanwerthuso, ond un sy'n arwain at newid gweladwy a chynaledig.*

**6. Yn ymgysylltu â dysgwyr**

Caiff dysgwyr eu cynnwys yn ystyrlon yn y broses, yn hytrach nag ymgynghori â nhw yn unig. Mae eu cyfraniadau'n helpu i lunio canfyddiadau a blaenoriaethau'r gwerthusiad,

gyda thystiolaeth o sut mae eu safbwyntiau wedi dylanwadu ar ganfyddiadau a phenderfyniadau.

*Mae cydweithio â dysgwyr yn dod â mewnwelediad gwerthfawr ac yn cefnogi cydberchnogaeth dros welliant. Mae hefyd yn cryfhau ymddiriedaeth, tryloywder ac ansawdd deilliannau.*

**7. Yn cynnwys rhanddeiliaid**

Mae'r broses yn cynnwys yn weithredol y rhai sydd â buddiant ystyrlon yng ngwaith y darparwr. Mae eu mewnwelediadau'n cynnig dyfnder a her, yn meithrin cydberchnogaeth ac yn gwella dilysrwydd y gwerthusiad.

*Mae hunanwerthuso wedi'i lywio gan amrywiaeth o leisiau yn ehangu persbectif ac yn cryfhau cysylltiad y darparwyr â'i gymuned ehangach.*

**8. Yn dryloyw ac yn onest**

Mae hunanwerthuso'n agored, yn gytbwys ac yn anamddiffynnol, gan gydnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu.

*Mae tryloywder yn meithrin hygrededd. Mae diwylliant o hunanwerthuso gonest yn gosod sylfeini ar gyfer ymddiriedaeth, sicrwydd allanol a newid ystyrlon.*

**9. Yn cyd-fynd â gwerthoedd a strategaethau**

Mae gwerthusiadau'n adlewyrchu sut mae gwerthoedd, blaenoriaethau strategol a nodau craidd y darparwyr yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae darparwyr yn archwilio'r aliniad rhwng eu cenhadaeth ddatganedig ac effaith wirioneddol eu darpariaeth.

*Mae hyn yn cefnogi cydlyniad ar draws y sefydliad. Mae'n helpu i sicrhau nad yw gwerthuso'n cael ei arwain gan gydymffurfiaeth yn unig, ond ei fod yn cefnogi cyfeiriad strategol ac uniondeb diwylliannol o ddifrif.*

**10. Yn ymwybodol o gyd-destun Cymru**

Mae hunanwerthuso'n ystyried cyfraniad y darparwr at dirwedd addysg Cymru, gan gynnwys blaenoriaethau polisi ac economaidd cenedlaethol, dwyieithrwydd a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gofynion deddfwriaethol perthnasol a chyd-destun rhyngwladol Cymru.

*Mae cydnabod cyd-destun Cymru drwyddi draw yn sicrhau perthnasedd a chydymffurfiaeth â nodau cenedlaethol. Mae'n cynorthwyo darparwyr i arddangos eu rôl wrth lunio blaenoriaethau addysgol, economaidd a rhyngwladol Cymru ac ymateb iddynt.*

**11. Yn bwrpasol ac yn gymesur**

Mae cwmpas a lefel y manylder yn adlewyrchu maint, cymhlethdod a chyd-destun y darparwr. Mae hunanwerthuso'n hylaw ac yn cynnig mewnwelediad heb ddyblygu'n ddiangen.

*Mae dull cymesur yn sicrhau bod y broses yn gynaliadwy ac yn ganolbwyntiedig. Mae'n osgoi gorlethu staff ac yn sicrhau bod sylw'n cael ei roi i'r meysydd sydd â'r flaenoriaeth uchaf.*

**12. Wedi'i ymwreiddio mewn llywodraethu**

Mae 'cyrff llywodraethol' yn chwarae rôl weithredol mewn hunanwerthuso. Mae eu goruchwyliaeth yn sicrhau bod canfyddiadau'n llywio strategaeth y darparwr ac yn sbarduno gwelliant.

*Mae ymwreiddio hunanwerthuso mewn prosesau llywodraethu yn rhoi pwys a dylanwad iddo. Mae'n helpu i sicrhau bod gwerthuso'n llywio cynllunio hirdymor, dyrannu adnoddau ac atebolrwydd sefydliadol.*

## Crynodeb

Pan gaiff ei gynnal yn effeithiol, mae hunanwerthuso'n cynnig offeryn pwerus ar gyfer gwella, atebolrwydd a datblygiad strategol. Yn enwedig ar gyfer y darparwyr hynny sy'n gweithredu ar draws sectorau, mae set gytûn o egwyddorion yn cefnogi dull mwy cydlynol, effeithlon ac ystyrlon. Mae'n caniatáu i ddarparwyr ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf: sef ansawdd profiad y dysgwr ac effaith eu darpariaeth. Trwy lunio disgwyliadau a dulliau lefel uchel mewn ffordd gytûn ar draws y sectorau trydyddol, nod y model hwn yw annog cydweithio a hybu iaith gyffredin ar gyfer gwella ansawdd sy'n ymatebol i flaenoriaethau darparwyr a disgwyliadau cenedlaethol, fel ei gilydd.

## Cwestiynau myfyriol

Ein nod yw y bydd darparwyr yn gallu defnyddio’r egwyddorion i fyfyrio ar eu prosesau hunanwerthuso a gwelliant parhaus. Gellir cymhwyso’r cwestiynau hyn ar ystod o lefelau o fewn darparwr, o fewn tîm cyflawni neu ar lefel strategol, maent yn cyd-fynd â phob egwyddor a’u bwriad yw ysgogi myfyrio a thrafodaeth. Nid ydynt yn ofynion rheoleiddiol nac yn rhestr gynhwysfawr a gall darparwr eu teilwra i fodloni eu hanghenion.

**1. Yn canolbwyntio ar ddysgwyr**

- Pa mor glir y mae ein hunanwerthuso’n dangos y gwahaniaeth y mae ein darpariaeth yn ei wneud i brofiadau, deilliannau a chynnydd dysgwyr, yn hytrach na chanolbwyntio’n bennaf ar brosesau, gweithgareddau neu gydymffurfiaeth?
- Pa mor dda ydym yn defnyddio safbwyntiau dysgwyr i lywio ein hunanwerthusiad a pha mor hyderus ydym fod y safbwyntiau hyn yn adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth dysgwyr?
- Ym mha ffyrdd mae ein hunanwerthuso’n nodi ac yn archwilio amrywiad ym mhrofiadau a deilliannau dysgwyr ar draws cyrsiau, dulliau astudio a grwpiau dysgwyr?
- Pa mor effeithiol y mae ein hunanwerthuso’n cysylltu profiadau dysgwyr â’r penderfyniadau a wnawn am ddylunio’r cwricwlwm, cymorth, asesu a dyrannu adnoddau?
- Pa mor dda ydym yn gwerthuso effaith ein camau gwella ar ddysgwyr, a sut ydym yn gwybod a yw newidiadau wedi gwella cyflawniad, lles neu gynnydd dysgwyr o ddifrif?
- Pa mor dda mae ein hunanwerthuso’n cofnodi profiadau dysgwyr ar adegau pontio allweddol (er enghraifft wrth gyrraedd, wrth symud rhwng lefelau neu flynyddol ac wrth ymadael) a beth mae hyn yn ei ddweud wrthym am ba mor effeithiol rydym yn cefnogi dysgwyr i lwyddo dros gyfnod?
- Pa mor hyderus ydym fod ein hunanwerthuso’n adlewyrchu sut beth yw bod yn ddysgwyr yn ein sefydliad mewn gwirionedd, a sut ydym yn profi neu’n herio ein rhagdybiaethau lle mae tystiolaeth dysgwyr yn gymysg neu’n anghyfforddus?

**2. Yn werthusol yn hytrach nag yn ddisgrifiadol**

- I ba raddau mae ein hunanwerthusiad yn barnu effeithiolrwydd ein dulliau, yn hytrach nag yn disgrifio gweithgareddau neu brosesau yn unig?
- Pa dystiolaeth ydym yn ei defnyddio i werthuso effaith ein darpariaeth ar ddeilliannau i ddysgwyr, a pha mor dda y mae’r dystiolaeth hon yn ategu ein barnau allweddol?

- Pa mor glir ydym yn nodi pa ddulliau sydd fwyaf effeithiol, i bwy ac ym mha gyd-destunau; a pha rai sy'n llai effeithiol?
- Lle mae ein gwerthusiad yn nodi meysydd i'w gwella neu anghysondeb, pa mor fanwl ydym yn esbonio pam mae'r rhain yn bodoli a beth sydd angen ei newid?
- Pa mor dda y mae ein barnau gwerthusol yn canolbwyntio ar ansawdd a pherfformiad dros gyfnod, yn hytrach nag ar fentrau untro neu gamau gweithredu diweddar?
- Pa mor gyson y mae arweinwyr a staff yn defnyddio meini prawf neu feincnodau cytûn i lunio barnau cadarn a chytûn am effeithiolrwydd?
- Pa mor effeithiol y mae ein hunanwerthusiad yn llywio camau gwella mesuradwy, wedi'u blaenoriaethu ac yn miniogi ein cynllunio ar gyfer gwella?

**3. Yn seiliedig ar dystiolaeth**

- Pa mor dda y mae ein gwerthusiadau wedi'u hategu gan dystiolaeth gredadwy, wedi'i thriongli sy'n deillio o ystod o ffynonellau (er enghraifft data, arsylwadau, adborth a deialog broffesiynol)?
- I ba raddau ydym yn profi ein casgliadau trwy gymharu tystiolaeth o safbwyntiau gwahanol, fel dysgwyr, staff, partneriaid, adolygwyr cymheiriaid allanol neu randdeiliaid allanol?
- Pa mor effeithiol ydym yn defnyddio data perfformiad a gwybodaeth arall i ddangos effaith dros gyfnod, yn hytrach na dibynnu ar gipluniau arunig?
- Pa mor dda ydym yn defnyddio meincnodau allanol, data cyfun gan ddarparwyr eraill, data cyhoeddedig cenedlaethol neu gymaryddion rhyngwladol i gryfhau dilysrwydd ein barnau?
- Pa mor gyson yw ansawdd tystiolaeth a'r defnydd ohoni ar draws gwahanol feysydd o'n darpariaeth a ble mae'r bylchau neu'r gwendidau y mae angen mynd i'r afael â nhw?
- Pa mor hyderus ydym y byddai ein sail dystiolaeth yn gwrthsefyll craffu allanol ac yn cyfiawnhau'n glir y casgliadau rydym wedi'u llunio?
- Pa mor dda y mae ein defnydd o dystiolaeth yn llywio penderfyniadau a chamau gwella amserol, wedi'u targedu'n dda ar draws ystod ein darpariaeth?

**4. Wedi'i lywio gan effaith**

- Pa wahaniaethau y mae ein gwaith gwella wedi'u gwneud i ddeilliannau i ddysgwyr a pha mor glir allwn ni ddangos hyn trwy dystiolaeth?
- Pa mor dda y mae ein hunanwerthusiad yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a wnawn a'r effaith y mae'n ei chael, yn enwedig lle nad yw dulliau wedi arwain at y gwelliannau a fwriadwyd?

- Pa agweddau ar ein darpariaeth sydd wedi cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar ddysgwyr, a pha dystiolaeth sy'n dangos pam y mae'r dulliau hyn yn effeithiol?
- Lle bu'r effaith yn gyfyngedig neu'n anghyson, pa mor onest ydym yn gwerthuso hyn ac yn addasu ein dulliau yn unol â hynny?
- Pa mor effeithiol ydym yn olrhain effaith dros gyfnod er mwyn sicrhau y caiff gwelliannau eu cynnal ac nad ydynt yn fyrdymor neu'n arwynebol?
- I ba raddau mae ein gwerthusiad yn ystyried effaith wahaniaethol, er enghraifft ar wahanol grwpiau o ddysgwyr neu feysydd o'r ddarpariaeth?
- Pa mor dda mae ein gwerthusiadau sydd wedi'u harwain gan effaith yn llywio penderfyniadau ynghylch ble i flaenoriaethu adnoddau, ymdrech a chamau gwella?

**5. Yn canolbwyntio ar weithredu**

- Pa mor glir y mae ein hunanwerthusiad yn nodi camau gweithredu â blaenoriaeth sy'n ymateb yn uniongyrchol i'r canfyddiadau allweddol a'r meysydd i'w gwella?
- I ba raddau mae ein camau gwella yn realistig, yn ganolbwyntiedig ac yn gymesur â'r materion a nodwyd trwy hunanwerthuso?
- Pa mor effeithiol ydym yn trosi canfyddiadau gwerthuso'n gynlluniau clir gyda chyfrifoldebau, amserlenni a meini prawf llwyddiant diffiniedig?
- Pa systemau sydd gennym ar waith i fonitro gweithrediad camau gwella, a pha mor gyson caiff y rhain eu defnyddio?
- Pa mor dda ydym yn gwerthuso effaith ein camau gweithredu ar ansawdd a deilliannau, yn hytrach na gwirio a yw camau gweithredu wedi'u cwblhau yn unig?
- Pa mor aml ydym yn ailedrych ar ein hunanwerthusiad ac yn ei ddiweddaru yn sgil effaith camau gwella a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg?
- Pa mor weladwy yw'r cysylltiad rhwng hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a newid amlwg i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill?

**6. Yn ymgysylltu â dysgwyr**

- Pa mor weithredol y mae dysgwyr yn ymwneud â llunio ein hunanwerthusiad, y tu hwnt i ymateb i arolygon neu ymgynghoriadau?
- Ym mha ffyrdd y mae dysgwyr yn cyfrannu at lunio ein barnau ynghylch cryfderau a meysydd i'w datblygu?
- Sut ydym yn sicrhau bod llais y dysgwr yn adlewyrchu ystod eang a chynrychioliadol o brofiadau a chefndiroedd?
- Pa enghreifftiau clir allwn ni eu darparu i ddangos sut mae safbwyntiau dysgwyr wedi dylanwadu ar ein canfyddiadau, ein blaenoriaethau neu ein camau gwella?
- Sut ydym yn creu cyfleoedd diogel a chynhwysol i ddysgwyr roi adborth gonest, gan gynnwys lle gallai darpariaeth fod yn wannach?

- I ba raddau y mae dysgwyr yn deall canlyniadau'r broses hunanwerthuso ac yn gweld effaith eu cyfraniadau?
- Sut mae cydweithio â dysgwyr yn gwella ansawdd ein gwerthusiad ac yn cryfhau cydberchnogaeth dros wella?

**7. Yn cynnwys rhanddeiliaid**

- Pa randdeiliaid ydym yn eu hystyried yn rhai sydd â buddiant ystyrlon yn ein darpariaeth, a sut ydym wedi'u nodi felly a'u blaenoriaethu'n unol â hynny?
- Sut mae dysgwyr a staff ar draws y sefydliad ac mewn rolau gwahanol yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, a sut gallem ni i gyd fod yn fwy effeithiol wrth wneud hynny?
- A ydym yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn ddigon cyson i feithrin cydberchnogaeth barhaus o'r deilliannau sydd o bwys i'r naill ochr a'r llall?
- Pa mor sicr ydym fod gennym ddealltwriaeth gyffredin o'n nodau cyffredin â'n rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod eu hadborth yn cefnogi dilysrwydd ein hunanwerthusiad?
- I ba raddau y mae gennym gydymddiriedaeth â'n rhanddeiliaid, fel y gallwn fod yn sicr y byddent yn teimlo'n hyderus i'n herio, ac y byddem yn croesawu eu her?
- Pa mor weladwy yw'r cysylltiad rhwng adborth ein rhanddeiliaid, ein penderfyniadau a'r effaith ar ein dysgwyr?
- A allai fod rhanddeiliaid posibl y byddai eu mewnwelediadau o fudd i ni, ond nad ydym wedi ymgysylltu â nhw hyd yn hyn (efallai oherwydd eu bod yn anoddach eu cyrraedd)? Os felly, pa gynlluniau sydd gennym i gysylltu â nhw?

**8. Yn dryloyw ac yn onest**

- Pa mor dda y mae ein hunanwerthusiad yn cyflwyno darlun cytbwys o'n darpariaeth, gan roi pwysoliad priodol ar hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn sydd angen ei wella?
- Pa mor dda y mae ein diwylliant yn cefnogi hunanwerthusiad gonest fel rhan arferol a gwerthfawr o wella, yn hytrach na gweithgaredd sy'n cael ei lywio gan graffu allanol?
- Sut ydym yn sicrhau y caiff gwendidau eu cydnabod yn adeiladol a'u defnyddio'n gyfleoedd i ddysgu, yn hytrach nag yn ffynonellau amddiffynoldeb neu gyfiawnhad?
- Ym mha ffyrdd y mae staff, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn cyfrannu at ein hunanwerthusiad, a sut mae hyn yn ein helpu i osgoi safbwynt amddiffynnol neu rhy gul?
- Pa mor dryloyw yw ein prosesau a'n canfyddiadau hunanwerthuso i staff, dysgwyr, llywodraethwyr a phartneriaid, a sut mae'r natur agored hon yn meithrin

ymddiriedaeth? Ystyriwch pwy sy’n gallu gweld gwybodaeth yr hunanwerthusiad a sut y caiff ei rhannu a’i thrafod.

- Pa dystiolaeth ydym yn ei defnyddio i ategu ein barnau ynghylch cryfderau a meysydd i’w datblygu, a pha mor hygyrch a thryloyw yw’r dystiolaeth hon i bobl eraill?
- Ble’r ydym wedi bod yn fwyaf gonest ynghylch meysydd o danberfformio, a pha mor glir ydym yn deall ac yn esbonio’r achosion sylfaenol yn hytrach na’u priodoli i ffactorau allanol yn unig?
- Pa mor hyderus ydym y byddai cynulleidfa allanol yn cydnabod ein hunanwerthusiad yn un gonest a chredadwy, hyd yn oed lle mae’n tynnu sylw at faterion anghyfforddus?

**9. Yn cyd-fynd â gwerthoedd a strategaethau**

- Pa mor hyderus ydym y gall dysgwyr, staff a rhanddeiliaid nodi ein gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol, a mynegi sut mae’r rhain yn trosi i’n dull o hunanwerthuso?
- Pa rai o’n gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol sydd fwyaf gweladwy yn yr hyn rydym yn ei fesur, ei fonitro ac yn myfyrio arno wrth hunanwerthuso, a pha rai sy’n llai gweladwy?
- A oes unrhyw feysydd lle mae ein gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol yn ymddangos yn fwy uchelgeisiol nag yn gyraeddadwy, neu lle nad yw’n glir sut y byddem yn gwerthuso ein heffaith?
- Pa mor hyderus ydym fod gan dimau gwahanol sy’n gweithio yn ein sefydliad ddealltwriaeth gyffredin o’n gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol?
- I ba raddau y mae timau gwahanol wedi’u grymuso i sicrhau bod yr hyn y maent yn ei fesur a’i fonitro wrth hunanwerthuso yn adlewyrchu ein gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol – yn hytrach nag ymateb i ofynion adrodd uniongyrchol yn unig?
- I ba raddau y mae ein gwerthoedd a’n blaenoriaethau strategol yn rhan o drafodaethau ynghylch sut rydym yn dehongli data a thystiolaeth arall o’n heffaith?
- I ba raddau y gallwn ddangos cysylltiad uniongyrchol rhwng ein gwerthoedd a’n nodau strategol a’n heffaith?
- Pe byddai arsylwr allanol yn edrych ar effaith ein darpariaeth yn unig, a fyddai’n gallu nodi’r nodau craidd sy’n sail iddi?

**10. Yn ymwybodol o gyd-destun Cymru**

- Beth yw ein dealltwriaeth o gyfraniad ein sefydliad at dirwedd addysg Cymru?
- Sut ydym yn dangos ein dealltwriaeth o’n lle yn nhirwedd addysg Cymru (er enghraifft) mewn dogfennau polisi strategol a gyhoeddwn?

- A yw ein prosesau gweinyddol sy'n cefnogi hunanwerthuso (er enghraifft, prosesau sicrhau ansawdd a chasglu data) yn adlewyrchu'n gywir ein dealltwriaeth o'n lle yn nhirwedd addysg Cymru? Os nad ydynt, sut gallwn ni eu haddasu fel eu bod yn gwneud hynny?
- A all cydweithwyr ar draws y sefydliad – nid uwch arweinwyr yn unig – egluro pa ofynion deddfwriaethol sy'n bwysig i ni (er enghraifft, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)?
- Wrth fyfyrio ar le Cymru yn y byd, beth yw ein dealltwriaeth o'n rôl fel sefydliad nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd yn y DU yn ei chyfanrwydd ac yn rhyngwladol?
- Sut ydym yn sicrhau y gall dysgwyr a chydweithwyr sydd â dyheadau byd-eang – er enghraifft, i ddysgu, gweithio neu gydweithio'n rhyngwladol – fanteisio ar y cyfleoedd hyn?
- I ba raddau y mae ein dysgwyr yn defnyddio, yn ymarfer neu'n datblygu eu medrau Cymraeg wrth iddynt ddysgu gyda ni, mewn gwirionedd?
- Sut gallwn ni ddangos ein bod yn effeithiol wrth hyrwyddo diwylliant sy'n gwerthfawrogi ac yn annog dwyieithrwydd – yn hytrach na dim ond cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg?
- A all cydweithwyr ar draws y sefydliad (nid yn unig y rhai sy'n siarad Cymraeg neu sy'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg) nodi pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg rydym yn ei chynnig a pha wasanaethau sydd ar gael i ddysgwyr yn ddwyieithog ar hyn o bryd?
- Pa gamau ydym yn eu cymryd i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a gwasanaethau dwyieithog i ddysgwyr? Sut ydym yn monitro ein cynnydd?

**11. Yn bwrpasol ac yn gymesur**

- A ydym wedi nodi o'r cychwyn pa effaith rydym yn ceisio ei dangos a pha dystiolaeth benodol y mae angen i ni ei chasglu i wneud hynny?
- A yw ein hunanwerthusiad yn ddigon manwl i roi darlun cywir i ni o'n heffaith, heb fod mor llafurus fel ei fod yn tynnu amser ac adnoddau oddi wrth gyflawni effaith?
- Wrth gynnal 'archwiliad dwfn' i dystiolaeth o'n heffaith ar themâu penodol sydd o ddiddordeb, pa mor hyderus ydym fod hyn yn ychwanegu gwerth?
- Sut ydym yn sicrhau bod gan gydweithwyr mewn timau gwahanol y gallu sydd ei angen i fyfyrio'n ystyrlon ar effaith eu gwaith a chyfranni at hunanwerthusiad y sefydliad?
- Pa adnoddau y gallai fod angen i gydweithwyr mewn timau gwahanol fanteisio arnynt i werthuso eu heffaith yn lleol?
- A ydym wedi nodi cyfleoedd i leihau dyblygu – o ran coladu tystiolaeth a defnyddio'r dystiolaeth honno wrth hunanwerthuso?
- Lle mae gennym allu cyfyngedig i hunanwerthuso, sut ydym yn nodi ein meysydd sydd â blaenoriaeth o ran effaith, a pha mor hyderus ydym yn ein dewisiadau?

**12. Wedi'i ymwreiddio mewn llywodraethu**

- Pa gyfleoedd y mae ein corff llywodraethol yn eu cael, ac ar ba gamau yn y cylchoedd cyflawni ac adrodd, i ymgysylltu â'n hunanwerthusiad a deall ein heffaith; ac i roi adborth yn unol â hynny?
- Sut ydym yn sicrhau bod aelodau'r corff llywodraethol yn cael cyfleoedd i ennill dealltwriaeth strategol ddigon manwl o'n nodau craidd, heb eu gorlethu â manylion gweithredol?
- Wrth adrodd i'n corff llywodraethol ar ein hunanwerthusiad a'n heffaith, pa mor glir yw'r cysylltiad rhwng ein gwerthoedd a'n nodau strategol; ein gweithgareddau hunanwerthuso; a'r effaith a grybwyllir?
- Pa mor hyderus ydym fod ein hunanwerthusiad a'r effaith a grybwyllir yn rhoi'r mewnwelediad sydd ei angen ar ein corff llywodraethol i gynllunio ar gyfer y tymor hir a gwneud penderfyniadau sylweddol ynghylch adnoddau?
- Pa mor hyderus ydym fod ein hunanwerthusiad yn cynnig asesiad gonest i'r corff llywodraethol o'n gallu i fodloni gofynion atebolrwydd ffurfiol (er enghraifft, rhwymedigaethau rheoleiddiol neu gytundebol)?
- A oes cyfleoedd i ymgysylltu â'r corff llywodraethol ynghylch sut gallem gyflwyno ein hunanwerthusiad mewn ffyrdd sy'n fwy defnyddiol iddynt, i ategu penderfyniadau strategol, cynllunio a goruchwylio?